**CARDIFF COUNCIL**
**CYNGOR CAERDYDD**

**COFNODION**

# CYFARFOD CABINET: 27 JULY 2017

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)<br>Y Cynghorydd Peter Bradbury<br>Y Cynghorydd Russell Goodway<br>Y Cynghorydd Graham Hinchey<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Michael Michael<br>Y Cynghorydd Lynda Thorne<br>Y Cynghorydd Christopher Weaver<br>Y Cynghorydd Caro Wild |
| Gwylwyr: | Y Cynghorydd Joe Boyle<br>Y Cynghorydd Adrian Robson |
| Swyddogion: | Paul Orders, y Prif Weithredwr<br>Christine Salter, Swyddog Adran 151<br>Davina Fiore, Swyddog Monitro<br>Joanne Watkins, Swyddfa'r Cabinet |
| Ymddiheuriadau: | Y Cynghorydd Susan Elsmore |

## 10 COFNODION Y CYFARFOD CABINET A GYNHALIWYD AR 6 GORFFENNAF 2017

**PENDERFYNWYD:** bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf yn cael eu cymeradwyo.

## 11 RHAGLEN TEULUOEDD YN GYNTAF: TREFNIADAU AR GYFER AIL-GOMISIYNU

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu cynigion ar gyfer ymagwedd newydd mewn perthynas â Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Caerdydd. Cynigiwyd cymryd ymagwedd cam wrth gam i ail-gomisiynu'r gwasanaethau a ariennir gan grant yn unol ag arweiniad gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y cynigion eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a cylchredwyd y llythyr i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

1. y cytunir ar yr ymagwedd gam wrth gam arfaethedig i ail-gomisiynu'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf nesaf fel y rhestrir yng nghorff yr adroddiad

2. Yn amodol ar argymhelliad 3, y dirprwyir awdurdod i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd a'r Aelod Cabinet, Moderneiddio a Pherfformiad, ac Adran 151 a Chyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer pob agwedd ar gomisiynu (gan gynnwys dyfarnu contractau) ac unrhyw drefniadau cysylltiedig a fydd o bosibl yn ofynnol mewn perthynas â'r Rhaglen nesaf, sef,

   a) Trefniadau ar gyfer cynllun peilot y Gwasanaeth Cymorth Cynnar ac unrhyw drefniadau tymor hirach y mae'n bosibl y caiff eu rhoi ar waith yn dilyn yn cynllun peilot;

   b) Cytundebau Lefel Gwasanaeth Lefel Cytundeb gyda'r meysydd gwasanaeth Cyngor perthnasol (gan gyngor yr adran Addysg) ar gyfer darparu'r prif Wasanaethau Rhianta a Chymorth Ieuenctid;

   c) Trefniadau (mewn ffurf i'w pennu ac yn amodol ar gyngor) gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'ngofyn am ddarpariaeth iechyd arbenigol;

   d) Trefniadau i ymestyn unrhyw gontractau cyfredol o fewn cwmpas y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn galluogi i drefniadau newydd gael eu rhoi ar waith ac yn amodol ar y contractau presennol sy'n cynnwys darpariaethau i'w hymestyn;

   e) Archwilio a datblygu trefniadau gweithio ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg ac ymgymryd ag unrhyw drefniadau gweithio ar y cyd y cytunwyd arnynt (heblaw m unrhyw drefniadau gweithio ar y chyd sy'n cynnwys dirprwyo swyddogaeth y Cyngor i Fro Morgannwg a/neu dirprwyo swyddogaeth Bro Morgannwg i'r Cyngor; ar hynny, caiff y mater ei adrodd yn ôl i'r Cabinet);

   f) Trefniadau comisiynu ar gyfer gwasanaethau ategol eraill mewn perthynas â'r Rhaglen Teuoluoedd yn Gyntaf gan gynnwys dyfarnu contractau.

3. Yn amodol i bob contract a threfniant yn cael ei wneud er mwyn cynnwys darpariaethau priodol mewn perthynas ag argaeledd cyllid grantiau, ni fydd cyfnod y fath gytundebau a threfniadau yn mynd y tu hwnt i 31 Mawrth 2022.

## 12 FFRAMWAITH ADRODD BLYNYDDOL Y CYNGOR – ADRODDIAD CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2016/17

Derbyniodd y Cabinet Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedwyd wrth y Cabinet fod yr adroddiad yn dilyn templed newydd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac felly roedd y fformat yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan gyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion a chafodd yr ymateb gan yr Aelodau Cabinet ei gylchredeg yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** y dylid derbyn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2016/17 a chytuno iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn.

## 13 STRATEGAETH CYLLIDEB 2018/19 A'R TYMOR CANOLIG

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad strategaeth y gyllideb. Amlinellodd yr adroddiad y strategaeth ariannol arfaethedig ar gyfer paratoi cyllideb y Cyngor yn 2018/19, gan gynnwys yr amserlen y byddai'r broses gyllideb yn ei dilyn a diweddarodd gynllun ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

(1) y cytunir ar egwyddorion y gyllideb y mae'r Adroddiad ar Strategaeth y Gyllideb yn seiliedig arnynt, gan gynnwys defnydd ymagwedd dargedig i fodloni'r Gofyniad am Leihau'r Gyllideb yn 2018/19 ac ar draws cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig

(2) bod cyfarwyddiaethau'n gweithio gyda'r Aelod Cabinet Portffolio perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau a Rheoli Perfformiad er mwyn nodi arbedion posibl er mwyn cynorthwyo wrth fynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb o £23.5 miliwn ar gyfer 2018/19 a £73.5 miliwn yn ystod cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

(3) cyrff perthnasol sy'n codi archebiannau ac ardollau ar y Cyngor eu cysylltu'n ffurfiol er mwyn gofyn i ostyngiadau o ran cyllid gael eu bwydo i mewn i'r setliadau hyn a ddylai fod yn unol â'r rheiny y disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru'n eu gorfodi mewn perthynas â chyllid yr awdurdod lleol.

(4) dirprwyir awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad er mwyn adnabod gofyniad amgen i leihau'r gyllideb wrth dderbyn eglurhad pellach o ran cyllid Llywodraeth Cymru.

(5) Bydd unrhyw gymeradwyaethau ar fuddsoddi cyfalaf, yn cael eu hariannu trwy fenthyca rhwng 2018/19 a 2022/23, ar gyfer adnewyddu asedau yn unit mewn perthynas â'r asedau presennol.

(6) Dirprwyir yr awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i ddiwygio'r Strategaeth Gyllideb, os na fydd y diwygiad hwn yn sylweddol wahanol i'r egwyddorion gwaelodol. Byddai unrhyw ofyniad i fod yn sylweddol wahanol i'r egwyddorion yn gofyn am Adroddiad Strategaeth Gyllidebol i'r Cabinet.

(7) mae'r Cyngor yn ceisio Datganiadau o Ddiddordeb gan swyddogion mewn perthynas â'r cynllun dileu swyddi gwirfoddol.

(8) cynigir bod y Cyngor yn cytuno y caiff y Fframwaith Amserlen Cyllidebol a osodir yn Atodlen 2 ei fabwysiadu ac yn y cyfnod hyd at hynny y caiff y gwaith a amlinellir ei symud ymlaen gyda'r nod o lywio paratoadau ar gyfer y gyllideb.

(9) y bydd proses dau gam mewn perthynas ag ymgynghoriad ar gynigion 2018/19. Bydd hyn yn dechrau gydag Arolwg Holi Caerdydd yn cynnwys adran ar themâu cyllidebol cyffredinol, wedi'u dilyn gan ymgynghoriad mwy manwl ar gynigion 2018/19 yn hwyrach yn yr Hydref, pan fydd rhagor o eglurder ar y sefyllfa o ran cyllid 2018/19.

**14 DIWEDDARIAD RHEOLI RISG CORFFORAETHOL – CHWARTER 4 2016/17**

Derbyniodd y Cabinet y Gofrestr Risg Gorfforaethol a amlinellodd y risgiau strategol sy'n wynebu'r Cyngor a mesurau a gymerwyd i liniaru'r risgiau hyn.

**PENDERFYNWYD:** y dylid nodi cynnwys y Gofrestr Risg Gorfforaethol

**15 AIL-GAFFAEL FFRAMWAITH CYDWEITHREDIADOL PRIFFYRDD Y DE DDWYRAIN A CIVILS CONSTRUCTION**

Dywedwyd wrth y Cabinet bod y Cyngor wedi cytuno i gynnal y fframwaith cydweithrediadol ar gyfer y Priffyrdd de-ddwyrain Cymru a Sifil cydweithrediadol a bod y fframweithiau yn gofyn am ail-gaffael erbyn mis Ebrill 2018. Rhestrodd yr adroddiad y trefniadau llywodraethu ar gyfer y fframwaith a'r broses ar gyfer ail-gaffael.

**PENDERFYNWYD:**

1. y cymeradwyir y penderfyniad i ddechrau ar ail-gaffael Fframwaith Adeiladu Sifil Cydweithrediadol De-ddwyrain Cymru fel y rhestrwyd yn yr adroddiad, gan ddirprwyo pob mater ategol i Gyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Moderneiddio, gan gynnwys gosod y fethodoleg arfarnu a hyd at ddyfarnu contractwyr llwyddiannus i'r fframwaith.

2. Y caiff ei nodi bod Cyngor Caerdydd wedi cytuno i gynnal y fframwaith gweithrediadol ar gyfer y cyfnod o Fawrth 2018-Mawrth 2022 a bod y cyfrifoldeb ar gyfer hynny ac unrhyw faterion ategol sy'n cynnwys gweinyddu'r Fframwaith Cydweithrediadol SEWH3 wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaeth Adnoddau, a'i gyflawni trwy'r tîm Comisiynu a Chaffae;.

## 16 CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI (CRT) 2017-18

Ystyriwyd Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) ei ystyried gan y Cabinet. Gosododd y cynllun ddiben y Cyngor fel landlord tai cymdeithasol a rhestrodd yr amcanion a'r safonau ar gyfer y gwasanaeth. Yn ogystal, cynigiodd yr adrodd feddiannu tir y Cyllid Cyffredinol neu eiddo sy'n addas i ddatblygu tai cyngor newydd i mewn i'r HRA am werth y farchnad y cytunwyd arni.

**PENDERFYNWYD:**

(1) y cymeradwyir y Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2017-2018.

(2) y nodir y cyflwynir y Cynllun cymeradwy i Lywodraeth Cymru.

(3) y cytunir ar yr egwyddor o feddiannu tir y Cyllid Cyffredinol neu eiddo yr ystyrir ei fod yn addas ar gyfer datblygu tai cyngor newydd o'r cyllid cyffredinol am werth y cytunir arno, sy'n cynrychioli gwerth y farchnad

## 17 POLISI GORFODAETH AWDURDOD TRWYDDEDU SENGL AR GYFER GRYMOEDD O DAN RHAN 1 Y DDEDDF TAI (CYMRU) 2014

Derbyniwyd diweddariad ar rôl y Cyngor fel Awdurdod Trwyddedu Sengl dros Gymru (Rhentu Doeth). Adroddwyd, er y gwnaed cynnydd sylweddol i sicrhau cydymffurfiad, amcangyfrifwyd bod 20% o landlordiaid nad oeddent yn cydymffurfio o hyd a chynigiwyd y dylid mabwysiadu polisi gorfodi er mwyn sicrhau ymagwedd gyson ar draws Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

1. y nodir y cynnydd a wnaed gan Rhentu Doeth Cymru wrth gyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014

2. y cymeradwyir y Polisi Gorfodi Rhentu Doeth Cymru drafft fel y'i rhestrir yn atodiad 1 i'r adroddiad a

3. y dirprwyir awdurdod i'r Cyfarwyddwr gyda'r cyfrifoldeb i Rhentu Doeth Cymru gymeradwyo diwygiadau i'r polisi, a fydd yn ofynnol o dro i dro.

## 18 COMISIYNU FFRAMWAITH NEWYDD AR GYFER CYNNAL A CHADW YSTÂD EIDDO'R CYNGOR

*Mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn wedi'i eithrio rhag ei gyhoeddi yn dilyn darpariaethau Paragraff 12A Rhan 4 paragraff 16 Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Roedd y Cabinet yn ystyried adrodd i geisio cymeradwyaeth i gomisiynu fframwaith cynnal a chadw adeiladau newydd ar gyfer ystâd eiddo y Cyngor. Cynigiwyd y câi tîm mewnol gwell ei ddatblygu a fframwaith gwell er mwyn cynnal a chadw adeiladau eu comisiynu.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y câi cynnwys yr adroddiad ei nodi;

2) Y cymeradwyir y strategaeth gomisiynu arfaethedig ar gyfer y Fframwaith Cynnal a Chadw Adeiladau Annomestig;

3) y câi awdurdod ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Datblygu Economaidd, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, y Swyddog 151 a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, er mwyn ymdrin â phob agwedd ar gaffael sy'n perthyn i'r Fframwaith Cynnal a Chadw Adeiladau Annomestig, gan gynnwys gosod y meini prawf arfarnu contractau a dyfarnu contractau.

4) Caiff awdurdod ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Datblygu Economaidd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, y Swyddog Adran 151 a Chyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, i wneud y trefniadau cytundebol dros dro sydd eu hangen er mwyn parhau â'r gwasanaeth nes bod y contractau newydd ar waith.

## 19 ARIANNU'R GYFNEWIDFA FYSIAU NEWYDD

*Ni fydd Atodiadau 2, 3, 4, 5 na 6 yr adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio dan y disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 a 21 rhannau 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Derbyniodd y Cabinet ddiweddariad ar ddarparu'r gyfnewidfa fysiau newydd. Ceisiwyd cytundeb mewn egwyddor i strategaeth cyllido ddiwygiedig yn dilyn y datblygwr yn cyflwyno cynni g i ddarparu'r gyfnewidfa fysiau yn seiliedig ar ateb a yrrir gan y farchnad.

**PENDERFYNWYD:**

(1) y caniateir i'r datblygwr fwyafu derbyniadau cyfalaf ar gyfer y gofod llawr masnachol o fewn datblygiad y gyfnewidfa fysiau trwy ganiatáu i ddefnydd terfynol gael ei yrru gan alw'r farchnad.

(2) y caiff awdurdod ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Datblygiad Economaidd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Swyddog Adran 151 a’r Swyddog Monitro i:

(i) Negodi a dod â chytundeb terfynol gyda’r datblygiad i ben, yn amodol ar yr amlen ariannol a amlinellir yn Atodiad 3 er mwyn cyflawni project y Cyfnewidfa Bysiau a chyngor allanol priodol.

(ii) Talu costau dylunio, cynllunio a pharatoi’r safle sy’n ddyledus fel yr amlinellir yn Atodiad Cyfrinachol 2, yn amodol ar wirio costau'n annibynnol.

(iii) Caffael safle Maes Parcio Saunders Road a berchnogir gan Network Rail er mwyn cwblhau cydosod y tir fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, yn amodol ar arfarniad annibynnol.

(3) y deuir â’r gyllideb ymlaen o’r rhaglen gyfalaf 2018/19 gymeradwy i mewn i gyllideb 2017/18 er mwyn talu’r costau cyn cynllunio a chydosod y tir a amlinellir yn yr adroddiad.